

Cofnodion cyfarfod 6/9/2018

1. **Presennol:** Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Susan Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).
2. Croesawyd pawb gan Y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhys Evans a Heddlu Gogledd Cymru.
3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Eifion Roberts yn y drafodaeth ar hedfan isel (11.ii).
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/7/18.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. 8. Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd eu bod yn cydnabod mai Cyngor Gwynedd sydd berchen ar ac yn gyfrifol am gerflun Tom Ellis. Diolchwyd eu bod yn mynd i wneud archwiliad pellach o gyflwr y cerflun. Diolchwyd hefyd i Einion Thomas am wneud gwaith ymchwil pellach ar y mater ac am gyfeirio pobl at y llyfryn yn Archifdy Dolgellau "Er cof: Thomas Edward Ellis"
 - ii. 14. Derbyniwyd ymateb Parc Cenedlaethol Eryri am gasglu sbwriel o flaen y llyn a gwybodaeth fod delio gyda sbwriel yn derbyn sylw ehangach yn y Parc. Maent yn annog busnesau i ddefnyddio pcedi pydradwy neu aml-ddefnydd.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, y Cynghorydd Sir, ac fe longyfarchwyd ef a'r Adran Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd am yr adroddiad ardderchog a roddwyd ar eu gwaith yn ddiweddar.
7. **Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd gwybodaeth fod gwaith uwchraddio yn digwydd yn nhoiledau'r Grŵn.
8. **Is-Bwyllgorau:**
 - i. Mae'e panel o Gynghorwyr sydd yn edrych mewn i gydnabyddiaeth cyhoeddus o waith y ferch leol, Betsi Cadwaladr, yn bwriadu dod ag argymhellion i'w hystyried gerbron y Cyngor yn fuan.
 - ii. Cytunodd yr is-bwyllgor Nadolig i gyfarfod yn fuan.
9. **Materion Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau:
 - i. Cymeradwywyd NP5/53/570 sef trosi garej yn lle byw, rhoi estyniad dros y garej presennol a gosod dormer to fflat ar hyd yr edrychiad cefn 25 Cae Gadlas.

- ii. NP5/53T154H Rhyddhau Amodau rhifau 3 a 4 o ganiatâd cynllunio NP5/53T154G adeiladau Banc y Nat West a thir i'r cefn – cytunwyd i adael y materion technogol i ddoethineb swyddogion arbenigol Parc Cenedlaethol Eryri.
- iii. Cadarnhawyd cymeradwyo trwy e-bost cais NP5/53/132M sef amnewid 3 mast llif-olau am un mast yn y Clwb Rygbi.

10. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a chofnodwyd derbyn ail daliad y Praesept.
- ii. Cytunwyd i dalu'r anfonebau a ddaeth i law.
- iii. Cadarnhawyd ymaelodi gyda'r ICO.

11. Hyfforddiant:

Ystyriwyd y Rhaglen Hyfforddi a gynigir gan Un Llais Cymru. Cytunwyd i gomisiynu hyfforddiant ar Fodiwl 12 "Cynllunio Cymunedol" ar gyfer pob aelod o'r Cyngor, a'i gynnal ar nos Iau Tachwedd 1af. Cytunodd y Cyngorwyr i dderbyn syniadau trigolion y gellid eu hyrwyddo i ddatblygu'r gymuned o fewn gallu'r Cyngor.

12. Gohebiaeth:

- i. Nodwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Cynefin.
- ii. Cafwyd trafodaeth ar Ymgynghoriad Cyhoeddus ar hedfan isel sy'n cael ei gynnal gan yr Aelod Seneddol. Wrth gydnabod yr angen am hyfforddiant hedfan isel, cytunwyd i fynegi wrth Liz Saville Roberts fod pryder am y risg i'r trigolion oherwydd dwyster y boblogaeth yn Y Bala pe byddai damwain; roedd pryder hefyd am lygru Llyn Tegid a'r peryg i gyflenwad dŵr o Lyn Arennig.
- iii. Nodwyd derbyn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn).
- iv. Nodwyd derbyn Dogfen Ymgynghori Cynllun Eryri Parc Cenedlaethol Eryri.
- v. Nodwyd derbyn dyddiadau cyfarfodydd cyswllt Parc/Cynghorau Cymuned.
- vi. Nodwyd derbyn gwybodaeth am gyfarfod 12/9/18 i drafod penwythnos digwyddiadau a chafwyd trafodaeth am y manteision a'r anfanteision o gynnal digwyddiad o'r math ym Mhenllyn; bydd Tony Parry yn mynychu'r cyfarfod.
- vii. Derbyniwyd ymholiad o Ganada yn holi am deulu Hendrie (Hendre?) a mab y fferm o'r enw Yorath (neu Iorwerth?). Roedd cysylltiad yr Awyrlu rhwng tad yr awdur, Andrew Weston, a'r Ffermwr.

13. **Partneriaeth Penllyn:** rhoddodd Alun Price adroddiad ar y gwaith sydd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

14. **Asedau'r Cyngor:** adroddodd Carol Rowlands fod eu cyflwr yn foddhaol, ond dywedodd fod pryder eto am ymddygiad anghyfreithiol difrifol ar Y Domen. Mae'r Domen yn cael ei monitro gan yr heddlu, Cyngorwyr ac eraill a bydd y giât yn cael ei chloi pan fydd pryder. Cytunwyd i godi'r mater eto pan fydd yr heddlu'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor; cytunodd y Cyngorwyr Dilwyn Morgan i godi'r mater pan fydd ef yn mynychu cyfarfod gyda'r Heddlu.

Mae'r Cyngor wedi bod yn aros yn hir i Gyfoeth Naturiol Cymru osod y meinciau a bwrcaswyd gan y Cyngor ar hyd llwybr Glan yr Afon; deellir bod Warden Llyn Tegid yn gwirfoddoli i'w gosod a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i gydweithio.

15. Materion lleol y Cyngorwyr Tref (mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc)

- i. Parcio yn Ffordd y Gerddi – cytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
- ii. Cwynion am balmentydd anwastad ar y Stryd Fawr – cytunodd y Cyngorwyr Dilwyn Morgan i drafod manylion gyda'r Swyddog sydd yn archwilio'r palmentydd bob pythefnos.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4/10/18

Amser gorffen: 8.50pm